ELLICE, (ELLIS), ROBERT (fl.1640), milwr ym myddin Siarl I

Enw: Robert Ellice
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: milwr ym myddin Siarl I
Maes gweithgaredd: Milwrol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Mab hynaf Gruffydd Ellis ap Risiart o Frondeg gerllaw Bersham. Daethai y teulu o Hopedale i gychwyn, a hawliai ddisgyn ohono ar yr ochr wrywol (eithr yn anghyfreithlon-'with a bar sinister') o Sandde Hardd, gorchfygwr Hopedale (c. 1100), ac, ar yr ochr fenywol, o Stanleiaid Ewloe. Y mae'n debyg mai trwy ei ewythr PETER ELICE (bu farw 1637), Wrecsam, g r dysgedig yn y gyfraith a hynafiaethydd, y defnyddiwyd ei gasgliad achau yn helaeth gan Robert Vaughan, Hengwrt, y cafodd Robert Ellice ystad Gwasnewydd (Croesnewydd yn awr) yn nhrefgordd Broughton a phlwyf Wrecsam; bu ei deulu'n byw yno hyd tua diwedd yr 17eg ganrif; eithr yn 1646 disgrifir ef fel 'of Ruabon.' Bu'n ymladd o dan Gustavus Adolphus yn rhyfel 1618-48. Pan dorrodd y Rhyfel Cartrefol allan yn ei wlad ei hun cymerodd gastell y Waun (Chirk), sedd y Pengrwn Syr Thomas Myddelton; yr oedd yn ben ar 600 o w r traed o Gymry a gurwyd yn Middlewich, sir Gaer, fis Mawrth 1643, a chafodd yntau ei gymryd i'r ddalfa. Wedi iddo gael ei ryddhau fe'i gwnaethpwyd yn ben dros y brenin yn siroedd Dinbych a Fflint a chanddo 1,200 o ddynion dano; bu'n eu harwain mewn ymgyrchoedd o gwmpas Wem (Mawrth 1644), a bu'n helpu i amddiffyn Sir Drefaldwyn yn erbyn y cyrch a wnaeth y Pengryniaid wedi hynny. Am iddo ymladd o blaid y brenin fe'i dirwywyd hyd £200 (yn ôl y ddegfed ran), eithr gwnaed y swm yn £150 yn ddiweddarach gan nad oedd iddo ond hawl-dros-oed yn yr ystad. Daeth ei frawd iau, THOMAS ELLICE, bargyfreithiwr (Gray's Inn, 1651), yn llywiawdr Barbados.

Bu Robert Ellice farw cyn 1661, a dilynwyd ef gan ei fab PETER ELLICE (bu farw 1719); yr oedd ef yn ynad heddwch a daeth yn ddirprwy-ystiward Bromfield a Yale (1697). Gwariodd gymaint ar ail-adeiladu ei gartref ac arwystlo'r ystad fwy a mwy nes erbyn 1750 iddi basio'n gyfan gwbl i ddwylo'r echwynwyr.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

A. N. Palmer, *History of the thirteen country townships of the old parish of Wrexham, and of the townships of Burras Riffri, Erlas, & Erddig Being the fifth and last part of "A history of the town and parish of Wrexham"* (1903), 1903, 82-90

History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog, iii, 68, 409

John Roland Phillips, *Memoirs of the Civil War in Wales and the Marches, 1642–1649* (London 1874), i, 145, 164; ii, 55-6, 202

Calendar of the Committee for Compounding with Delinquents, etc., 1643–1660, 11, 1499-1500

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1913-5, 30-31

Thomas Pennant, *A Tour (Tours) in [North] Wales*, i, 345

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionydd, i, 24

N.L.W., Hanmer deeds, 114

Sir W. Brereton's Letter sent to the Honoble William Lenthal Esq ... concerning all the passages and treaties of the siege and taking of the city of Chester And by Mr. Speaker appointed to be printed and published With a most exact declaration of Chesters enlargement after three yeers bondage, set forth by Nathanael Lancaster, chaplein to the Cheshire forces (5 Mawrth 1645/6), 5

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732992

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu